Annwyl Ddarparwr

**Ynglŷn â: Ymgynghoriad ynghylch Ffioedd Gofal Preswyl a Nyrsio 2025-2026**

Ysgrifennwyd atoch chi fis Rhagfyr i amlinellu ein cynlluniau i bennu ffioedd gofal ac mae'r llythyr hwn yn nodi ein ffioedd gofal dynodol ar gyfer 2025-2026.

Fel Cyngor rydym ni'n atebol am sicrhau bod y ffioedd rydym ni'n talu ar gyfer gofal yn gynaliadwy ac yn cwrdd ag anghenion ein dinasyddion. Mae'n gyfrifoldeb ariannol arnom i sicrhau bod pob pecyn gofal yn gynaliadwy, wedi'i brisio'n deg ac yn dangos gwerth am arian. Felly credwn fod ein ffioedd dynodol yn cynnig cynnydd rhesymol er mwyn i ddarparwyr barhau i ddarparu gofal yn Sir Ddinbych.

Wrth bennu ffioedd gofal 2025-2026 rydym ni wedi ystyried yr adborth a ddarparwyd gan ddarparwyr ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2024 ynghyd â'r:

- Cynnydd o 5% yn y Cyflog Byw Gwirioneddol, o £12.00 i £12.60 ym mis Ebrill 2025
- Cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr o 1.5% a lleihau'r trothwy YG
- Cyfradd chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr o 2% (fel rheol rydym ni'n defnyddio cyfradd chwyddiant mis Medi, a oedd yn 1.7%)


Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ
Ffôn: 01824 706000
E-bost: ann.lloyd@sirddinbych.gov.uk
Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk

PO Box 62, Ruthin LL15 9AZ
Telephone: 01824 706000
Email: ann.lloyd@denbighshire.gov.uk
Website: www.denbighshire.gov.uk

| | 24 / 25 | 25 / 26 | Cynnydd Wythnosol | |
|---|---|---|---|---|
| Gofal Preswyl Safonol | £774.47 | £804.64 | £30.17 | 3.90% |
| Preswyl – Henoed Bregus eu Meddwl | £808.58 | £862.71 | £54.13 | 6.70% |
| Gofal Nyrsio Safonol* | £851.81 | £909.94 | £58.13 | 6.80% |
| Nyrsio – Henoed Bregus eu Meddwl* | £920.05 | £987.19 | £67.14 | 7.30% |

*Ac eithrio gofal nyrsio wedi'i ariannu gan BIPBC

Sylwch mai dim ond ar ffioedd a delir ar gyfraddau safonol Cyngor Sir Ddinbych y caiff y cynnydd hwn ei weithredu. Ar gyfer unrhyw ddarparwr a/neu leoliad a delir mwy na hyn, caiff y swm ariannol cyfwerth (gweler y tabl uchod) ei ddefnyddio ar gyfer pob math o ffi gofal.

Yn dilyn 2024-2025 pan gytunwyd yn rhanbarthol i fwrw ymlaen â dull 'Gadewch inni gytuno i gytuno', mae Sir Ddinbych, fel sawl awdurdod lleol arall yn y gogledd, wedi buddsoddi ym methodoleg CareCubed – pecyn costio teg wedi'i ddylunio i sicrhau tryloywder a thegwch wrth drafod pecynnau gofal.

Wrth wraidd ein trafodaethau a'n sgyrsiau mae cyfrifoldeb sylfaenol yr awdurdod lleol i warchod arian cyhoeddus a sicrhau'r gwerth gorau am arian i'r trethdalwr. Rydym ni hefyd yn deall ac yn cydnabod bod yn rhaid i chi, fel darparwr, gwrdd â chostau darparu gofal a gwneud elw rhesymol.

Yn ôl yr arfer, oherwydd y cyfrifoldeb a rennir, rydym ni'n croesawu'r cyfle i drafod hyn gyda chi ac yn eich annog i gwblhau pecyn CareCubed.Mae CareCubed wedi'i ddylunio i

Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ
Ffôn: 01824 706000
E-bost: ann.lloyd@sirddinbych.gov.uk
Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk

PO Box 62, Ruthin LL15 9AZ
Telephone: 01824 706000
Email: ann.lloyd@denbighshire.gov.uk
Website: www.denbighshire.gov.uk

ddod â mwy o gysondeb a thegwch i’n rhyngweithiadau a’n helpu ni i gynnal perthynas ddibynadwy gyda’n holl ddarparwyr a chanfod datrysiadau y gallwn gytuno arnynt gyda’n gilydd.

Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod erbyn dydd Gwener 17 Ionawr drwy anfon neges i provider.portal@denbighshire.gov.uk.

Os na fyddwn ni wedi clywed gennych chi, byddwn yn cymryd yn ganiataol eich bod yn derbyn y ffioedd hyn, a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2025.

Diolch i chi unwaith eto am eich cydweithrediad. Rwy’n gobeithio y gallwn barhau i gydweithio i feithrin perthynas gryfach a darparu’r gofal sydd ar unigolion ei angen.

Yn ddiffuant



**Ann Lloyd**

Pennaeth Gwasanaeth: Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd

Head of Service: Adult Social Care & Homelessness Service.

Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ
Ffôn: 01824 706000
E-bost: ann.lloyd@sirddinbych.gov.uk
Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk

PO Box 62, Ruthin LL15 9AZ
Telephone: 01824 706000
Email: ann.lloyd@denbighshire.gov.uk
Website: www.denbighshire.gov.uk